




Eich hawliau a'ch dewisiadau fel cwsmer ffôn



Cynnwys

Beth yw Oftel?	2
Beth a gwmpesir yn y daflen hon	2
Eich hawliau fel cwsmer ffôn	3
Sut i gwyno am eich gwasanaeth ffôn	8
Sut i ddewis y cwmni ffôn cywir	12
Manylion cyswllt	18



Beth yw Oftel?

Rheoleiddiwr diwydiant telathrebu'r DU yw'r Office of Telecommunications – Oftel. Ein nod yw sicrhau eich bod yn derbyn y safon, y dewis a'r gwerth am arian gorau ar gyfer eich holl wasanaethau ffôn, gan gynnwys gwasanaethau ffôn sefydlog a symudol a mynediad i'r Rhynggrwyd.

Beth a gwmpesir yn y daflen hon

Mae'r daflen hon yn esbonio:

- eich hawliau fel cwsmer ffôn;
- yr hyn y dylech ei wneud os oes gennych gŵyn; a
- ble y gallwch gael gwybodaeth i'ch helpu i ddewis cwmni ffôn.

Nodir manylion cyswllt defnyddiol yng nghefn y daflen hon.

Mae Oftel wedi cynhyrchu gwybodaeth ar wahân ar bynciau penodol, gan gynnwys ffonau symudol. Gweler yr adran gwybodaeth i ddefnyddwyr ar ein gwefan yn

www.oftel.gov.uk/consumer/advice.

Eich hawliau fel cwsmer ffôn

Pa hawliau sydd gennyf?

Mae gennych lawer o hawliau fel cwsmer ffôn. Daw rhai ohonynt o Ddeddf Telathrebu 1984, ac eraill o gyfraith Ewropeaidd.

Dim ond pan fyddwch yn delio â BT neu Kingston Communications yn Hull y bydd rhai hawliau yn berthnasol, bydd eraill yn berthnasol pan fyddwch yn delio â phob cwmni ffôn.

Mae gennych hefyd yr holl hawliau sydd gan bawb o dan gyfraith gyffredinol y defnyddiwr, fel Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982.

A oes gennyf hawl i wasanaeth ffôn?

Oes. Mae'n bwysig bod gwasanaethau ffôn sylfaenol ar gael i bawb yn y DU, felly mae'n rhaid i BT – neu Kingston Communications os ydych yn byw yn Hull – ddarparu gwasanaeth ffôn sefydlog i chi am bris fforddiadwy. Gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth ffôn hwn i wneud galwadau cenedlaethol, rhyngwladol, i'r gweithredydd ffôn a'r gwasanaeth ymholiadau llyfr ffôn.

A oes gennyf unrhyw hawliau ychwanegol os wyf yn hŷn neu os oes gennyf anabledd?

Oes – mae'n rhaid i gwmnïau ffôn ddarparu rhai gwasanaethau ychwanegol, a allai gynnwys:

- atgyweirio blaenoriaeth os na fydd eich ffôn sefydlog yn gweithio mwyach;
- ymholiadau llyfr ffôn am ddim os na allwch ddefnyddio llyfr ffôn;
- biliau mewn fformat derbynol fel print bras, Braille neu dâp sain; a
- gwasanaethau trosglwyddo testun os oes gennych nam ar eich clyw.

Dylech gysylltu â'ch cwmni ffôn am fanylion pellach.

Yn ogystal, mae Ricability, sef sefydliad ymchwil annibynnol, wedi cynhyrchu canllaw i ddefnyddwyr, *It's your call: a guide to telephone services for older and disabled customers*.

Mae hwn yn esbonio'r gwasanaethau a gynigir gan nifer o gwmnïau ffôn a sut i'w cael. Am gopi am ddim o *It's your call*, cysylltwch naill ai â Ricability neu Uned Ymchwil a Gwybodaeth Oftel (gweler 'Manylion cyswllt').

A oes gennyf hawl i gael bil â phob eitem wedi'i nodi arno?

Oes. Ar gyfer eich gwasanaeth ffôn sefydlog mae gennych hawl i gael bil â phob eitem arno am ddim. Ond nid oes angen i fil â phob eitem arno roi'r manylion llawn, dim ond digon o wybodaeth i chi wirio bod eich bil yn gywir. Gallwch hefyd ofyn i beidio â derbyn bil â phob eitem arno.

Pa hawliau sydd gennyf i fod yn y llyfr ffôn a gwasanaeth ymholiadau'r llyfr ffôn?

Mae gennych yr hawl i gael eich cynnwys yn y llyfr ffôn a gwasanaeth ymholiadau'r llyfr ffôn am ddim. Gallwch hefyd ddewis peidio â bod yn y llyfr ffôn.

A allaf gadw fy rhif pan fyddaf yn newid cwmni ffôn?

Gallwch. Os byddwch yn newid eich cwmni ffôn sefydlog ac yn aros yn yr un cyfeiriad, gallwch gadw eich rhif ffôn; yr enw ar hyn yw 'hygludedd rhif'. Gellir codi tâl am hyn.

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau ffôn symudol hefyd yn gadael i chi gadw eich rhif pan fyddwch yn newid cwmnïau ond nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt i wneud hyn. Am ragor o wybodaeth am ffonau symudol, gweler yr adran gwybodaeth i ddefnyddwyr ar ein gwefan yn

www.oftel.gov.uk/consumer/advice neu cysylltwch â'n Hadran Cynrychioli Defnyddwyr (gweler 'Manylion cyswllt').


A allaf atal galwadau rhag cael eu gwneud o'm ffôn?

Gallwch. Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn gadael i chi atal mathau penodol o alwadau rhag cael eu gwneud o'ch ffôn. Gall hyn atal pobl rhag gwneud galwadau drud a heb awdurdod, fel galwadau rhyngwladol neu alwadau cyfraddau premiwm, o'ch ffôn.

A allaf atal galwadau gwerthiant diangen i'm ffôn?

Gallwch. Gallwch gofrestru am ddim gyda'r Gwasanaeth Dewisiadau Ffôn (TPS) – gweler 'Manylion cyswllt'. Os ydych wedi cofrestru, bydd y TPS yn gwahardd cwmnïau a sefydliadau eraill rhag gwneud galwadau ffôn nas croesewir atoch i farchnata neu hysbysebu eu nwyddau neu wasanaethau.

Fel defnyddiwr preswyl ni ddylech dderbyn ffacs marchnata nas croesewir. Os byddwch yn eu derbyn, dylech gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am daweilwch meddwl ychwanegol, gallwch hefyd gofrestru am ddim gyda'r Gwasanaeth Dewisiadau Ffacs – mae hwn yn gweithio mewn ffordd debyg i'r TPS (gweler 'Manylion cyswllt').



A ddylwn gael contract ysgrifenedig gan gwmni?

Dylech. Mae gennych hawl i gael contract ysgrifenedig am eich gwasanaeth ffôn sy'n cynnwys o leiaf:

- yr amser mae'n ei gymryd i gysylltu â'r gwasanaeth ar ddechrau eich contract;
- y mathau o wasanaeth cynnal a chadw a gynigir;
- trefniadau iawndal neu ad-daliad (neu'r ddau) os na chaiff safon y gwasanaeth ei chyrraedd;
- crynodeb o'r gweithdrefnau er mwyn datrys anghydfod; a
- gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth a gynigir.

O dan Reoliadau Termau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999, mae'n rhaid i bob un o dermau'r contract fod yn deg. Gall Ofel ymchwilio a phenderfynu p'un a yw termau'r contract yn annheg os byddwn yn derbyn nifer o gwynion ar bwnc penodol.

A allaf ddarganfod rhif ffôn rhywun sydd wedi fy ffonio?

Gallwch. Mae gwasanaeth 'adnabod y llinell ffonio' (CLI) yn eich galluogi i ddarganfod rhif y galwr ar sgrîn arddangos neu drwy ddeialu cod byr (1471 fel arfer) ar ôl derbyn galwad. Fodd bynnag, nid yw CLI yn datgelu rhif ffôn y galwr os yw'r galwr wedi dewis ei gelu. Gallwch drefnu gyda'ch cwmni ffôn i wrthod unrhyw alwadau gan bobl sy'n dewis celu eu rhif.

Gall unrhyw un y byddwch yn eu ffonio ddarganfod o ba rif yr ydych yn ffonio fel arfer. Gallwch atal hyn, fel arfer drwy ddeialu 141 o flaen y rhif.



Sut i gwyno am eich gwasanaeth ffôn

Beth ddylwn ei wneud gyntaf?

Os oes gennych gŵyn, dylech godi'r mater i ddechrau gyda'ch cwmni ffôn a cheisio datrys y mater gyda hwy. Ond cyn i chi gysylltu â hwy, dylech fod yn glir eich meddwl ynglŷn ag union natur eich cwyn a'r hyn yr hoffech wedi'i wneud am y peth.

Mae'n ddefnyddiol cadw cofnod iawn o'ch cwyn sy'n rhestru:

- y dyddiad a'r amser y gwnaethoch siarad â'ch cwmni ffôn;
- gyda phwy y gwnaethoch siarad; a
- beth a wnaethant ei ddweud wrthy'ch neu addo ei wneud.

Dylech hefyd:

- ofyn i'ch cwmni ffôn pryd y gallech ddisgwyl i'ch cwyn gael ei hateb neu ei datrys (neu'r ddau);
- cadw copïau o bob gohebiaeth; a
- gwirio amodau'r gwasanaeth neu'r contract gyda'ch cwmni ffôn.

Beth os na chaf yr ateb yr wyf am ei gael?

I ddechrau, rhowch gyfle i'r cwmni ffôn ddatrys eich cwyn.

Os teimlwch i chi gael eich trin yn wael neu mewn modd afresymol, gallwch ofyn i fynd â'ch cwyn i lefel uwch. Mae gan lawer o gwmnïau dimau lefel uwch sy'n delio â chwynion cwsmeriaid na ellir eu datrys ar unwaith.

Os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon, gallwch gysylltu ag Oftel am gyngor. Mae'n rhaid i ni ystyried unrhyw gwyn neu ymholiad am y gwasanaethau telathrebu a gyflenwir yn y DU. Fodd bynnag, nid oes rhaid i ni ddelio â chwynion nac ymholiadau sy'n ymddangos yn wamal.

Gyda phwy rwyf yn cysylltu ag ef yn Oftel gyda chwyn neu ymholiad?

Os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, cysylltwch ag Adran Cynrychioli Defnyddwyr Oftel sydd wedi'i lleoli yn Llundain (rhif cyfradd lleol: 0845 714 5000).

Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth Pwyllgor Ymgynghorol ar Delathrebu Gogledd Iwerddon (NICAT) ar yr un rhif cyfradd lleol: 0845 714 5000.

Gweler y 'Manylion cyswllt' ar gyfer cyfeiriadau postio ac e-bost.

Sut byddwch yn fy helpu?

Gall ein timau medrus ddelio â'ch cwyn neu ymholiad dros y ffôn, drwy ffacs, llythyr, e-bost neu ffôn testun.

Efallai na fyddai gennym y pwerau i benderfynu pwy sy'n gywir neu'n anghywir, nac i gyfeirio eich cwmni ffôn i gymryd camau gweithredu penodol, ond byddwn yn ceisio eich helpu chi a'ch cwmni ffôn i ddod i benderfyniad sy'n addas i'r ddwy ochr. Os oes gennym bwerau cyfreithiol i weithredu arnynt, efallai y byddwn yn eu defnyddio. Ni allwn ddyfarnu iawndal i ddefnyddwyr.

Mae gan ein gwefan lawer o wybodaeth ar gwynion ac mae'n cynnwys atebion i gwestiynau a ofynnir yn aml.

Weithiau byddai'n fwy priodol i fynd â'ch cwyn i sefydliad arall. Er enghraifft, gall eich swyddfa safonau masnach leol eich helpu'n well os teimlwch na dderbynioch y gwasanaethau a addawyd i chi. Gallwch ddod o hyd i'ch swyddfa safonau masnach agosaf drwy ddefnyddio'r wefan

www.tradingstandards.gov.uk neu drwy edrych yn eich llyfr ffôn. Neu os yw eich cwyn yn gysylltiedig â'r gwasanaeth cyfradd premiwm, gallai'r rheoleiddiwr cyfradd premiwm ICSTIS ddatrys eich cwyn (gweler 'Manylion cyswllt').

Beth os byddaf yn parhau i fethu â datrys fy anghydfod?

Mae sawl cwmni ffôn yn cynnig cynlluniau cymodi neu gyfryngu. Os na fydd eich cwmni ffôn yn eu cynnig, eich cam nesaf fyddai camau cyfreithiol. Er enghraifft, gall y llys mân hawliadau ddelio â hawliadau hyd at £5,000. Gallwch ofyn i'ch llys sirol lleol am y llys mân hawliadau.

Mae'r diwydiant telathrebu yn sefydlu cynllun ombwdsmon i ddatrys anghydfod rhwng defnyddwyr a chwmnïau ffôn. Edrychwch ar ein gwefan am fanylion ynghylch pryd y bydd hyn ar waith.

A oes rhagor o wybodaeth am gwynion ar gael?

Mae OfTEL yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth ar gwynion.

Bob mis byddwn yn cyhoeddi'r deg pwnc mwyaf poblogaidd y bydd defnyddwyr yn cwyno amdanynt. Gallwch ddod o hyd i hyn ar ein gwefan.

Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth fanylach am y cwynion rydym yn eu derbyn. Mae hwn yn dangos nifer y cwynion fesul 1,000 o ddefnyddwyr ar gyfer cwmnïau ffôn sefydlog a symudol. Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth hon a mwy ar yr adran gwybodaeth i ddefnyddwyr ar ein gwefan yn www.oftel.gov.uk/consumer/advice.



Sut i ddewis y cwmni ffôn cywir

Sut ydw i'n mynd ati i ddewis cwmni ffôn?

Mae gan bawb yn y DU ddewis o gwmnïau ffôn. Fel rheoleiddiwr annibynnol, diduedd, ni all OfTEL restru'r cwmnïau ffôn 'rhataf' na'r rhai sy'n darparu'r gwasanaeth 'gorau' yn gyffredinol. Ond gallwn eich cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth defnyddiol ac awgrymu pethau i'w hystyried cyn i chi ddewis cwmni ffôn.

Mae'r pethau hyn yn cynnwys:

- cost y gwasanaeth;
- ansawdd y gwasanaeth; a
- pha wasanaethau sydd ar gael.

Gall eich anghenion fod yn wahanol i rai pobl eraill. Er enghraifft, gallai gwasanaeth dibynadwy fod yn bwysicach i chi na'r gost. Neu gallwch fod am sicrhau'r opsiwn rhataf posibl heb boeni nad yw'r ansawdd cystal. Neu, efallai eich bod am gael eich gwasanaethau teledu a ffôn ar un bil.

Sut alla'i gyfrifo'r pris?

Bydd angen i chi ystyried:

- rhentu'r llinell ffôn;
- cost y galwadau;
- pecynnau disgownt;
- nifer y galwadau y byddwch yn eu gwneud;
- y mathau o alwadau y byddwch yn eu gwneud (lleol, cenedlaethol, rhyngwladol neu'r Rhyngrwyd); a
- phryd byddwch yn gwneud y galwadau.

Wrth ddewis ffôn symudol, mae nifer o siopau a gwefannau a all roi cyngor i chi am y prisiau. Y dewis pwysicaf i chi fydd p'un a ydych am gael:

- gwasanaeth talu ymlaen llaw (ble byddwch yn prynu talebau neu'n defnyddio cerdyn credyd neu ddebyd i dalu am eich galwadau cyn i chi eu gwneud); neu
- gwasanaeth contract (ble byddwch yn cael bil am alwadau a rhentu llinell ffôn).

Sut ydw i'n cymharu prisiau?

Mae'r Rhyngrwyd yn ffynhonnell wybodaeth dda os hoffech weld faint y gallwch fod yn ei dalu â chwmni ffôn arall. Gallwch hefyd gysylltu â manwerthwyr ffôn symudol yn uniongyrchol a gofyn am wybodaeth am becynnau tariff. Cyn llofnodi contract, cofiwch wirio'r pris gwirioneddol gyda'r cwmni ffôn rydych yn bwriadu ei ddefnyddio.

Edrychwch ar ein gwefan www.oftel.gov.uk am restr brisiau o ffynhonnell wybodaeth annibynnol a hawdd i'w defnyddio sydd ar gael yn fuan.

Sut alla'i gael gwybodaeth am ansawdd y gwasanaeth?

Mae Fforwm y Diwydiant Telathrebu, gyda chymorth OfTel a grwpiau defnyddwyr yn cyhoeddi canllaw o ansawdd y gwasanaeth *How well did your telephone company do?* Gallwch gael hwn am ddim fel taflen o'ch llyfrgell neu Uned Ymchwil a Gwybodaeth OfTel (gweler 'Manylion cyswllt') neu dewch o hyd iddo ar y Rhyngrwyd yn www.cpi.org.uk o dan 'Perfformiad y gweithredwr'.

Mae'r cwmnïau ffôn symudol yn cynnal arolwg ar ganran y galwadau a gysylltwyd ac a gwblhawyd yn llwyddiannus ym mhob rhanbarth yn y DU. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau ar ein gwefan yn www.oftel.gov.uk.

Gallwch hefyd ddarganfod pa gwmnïau y gwnaethom dderbyn y mwyaf o gwynion amdanynt ar ein gwefan yn www.oftel.gov.uk/consumer/advice.

Pa wasanaethau sydd ar gael?

Y ffordd hawsaf o gael gwybodaeth am wasanaethau pob cwmni yw cael manylion gan y rhai sy'n gweithredu yn eich ardal chi. Byddant yn fodlon anfon gwybodaeth atoch. Os ydych yn ansicr pa gwmnïau a geir yn eich ardal chi, defnyddiwch y ffynonellau gwybodaeth a grybwyllwyd o dan Sut ydw i'n cymharu prisiau? uchod.

Sut ydw i'n dewis y cwmni ffôn gorau ar fy nghyfer i?

Gallwch ddewis rhwng sawl gwahanol fath o gwmni ffôn, gan gynnwys mynediad uniongyrchol, mynediad anuniongyrchol, 'Galwadau a Mynediad', dewis cwmni cludo galwadau ymlaen llaw a chwmnïau ffôn symudol.

Beth yw cwmni ffôn mynediad uniongyrchol?

Mae'n cysylltu'n uniongyrchol â'ch ffôn drwy gyswllt gwifren, cebl neu radio. Byddwch yn talu am rentu llinell, cost y galwadau a wnewch a'r gwasanaethau y byddwch yn eu defnyddio.

Cwmni mynediad uniongyrchol yw BT ac mae ar gael ledled y wlad ar wahân i Hull – yno Kingston Communications yw'r prif gwmni ffôn mynediad uniongyrchol.

Gall cwmnïau cebl ddarparu gwasanaethau teledu yn ogystal â gwasanaethau ffôn. Gall dros hanner y cartrefi yn y DU gysylltu â chwmnïau cebl ond efallai y bydd angen llinell newydd arnoch cyn gwneud hynny.

Gyda chwmnïau Galwadau a Mynediad, nid oes angen gosod llinell newydd arnoch. Maent yn defnyddio rhwydwaith BT, ond dim ond gan eich cwmni dewisol y byddwch yn derbyn bil.

Beth yw cwmni mynediad anuniongyrchol?

Efallai y gallwch hefyd ddefnyddio cwmni ffôn mynediad anuniongyrchol i gael galwadau rhatach. Bydd eich galwadau yn trosglwyddo dros ei rwydwaith a chewch eich bilio ar eu cyfer, ond byddwch yn parhau i dalu rhent llinell i'ch cwmni mynediad anuniongyrchol.

Gyda rhai cwmnïau mynediad anuniongyrchol, byddwch yn deialu cod byr i gludo eich galwadau cyn deialu'r rhif sydd ei angen arnoch. Bydd eraill yn rhoi deialydd awtomatig i chi – blwch sy'n cludo eich galwad yn awtomatig heb fod angen deialu'r cod byr.

Beth yw dewis cwmni cludo galwadau ymlaen llaw?

Mae hwn yn debyg i fynediad anuniongyrchol, ond yn hytrach na deialu cod neu ddefnyddio deialydd awtomatig, caiff eich galwadau eu trosglwyddo yn awtomatig dros rwydwaith y cwmni cludo galwadau ymlaen llaw (CPS) a ddewisir.

Bydd angen i chi ddewis pa fath o alwadau yr ydych am eu cludo dros eu rhwydwaith, er enghraifft 'cenedlaethol', 'rhyngwladol' neu 'bob galwad'. Gallwch, fodd bynnag, ddewis peidio â defnyddio'r CPS ar unrhyw adeg. Fel gyda'r gwasanaethau mynediad anuniongyrchol, byddwch yn parhau i dalu rhent llinell i'ch cwmni mynediad uniongyrchol.

Mae Oftel wedi cynhyrchu canllaw i ddefnyddwyr i'r CPS – gweler yr adran gwybodaeth i ddefnyddwyr ar ein gwefan yn www.oftel.gov.uk/consumer/advice.

Beth am ffonau symudol?

Gallwch brynu gwasanaeth ffôn symudol gan gwmnïau ffôn sy'n berchen ar eu rhwydweithiau eu hunain, neu gan y rhai sy'n defnyddio rhwydweithiau cwmnïau eraill. Am ragor o wybodaeth am ffonau symudol, gweler yr adran gwybodaeth i ddefnyddwyr ar ein gwefan yn

www.oftel.gov.uk/consumer/advice.



Manylion cyswllt

Cysylltiadau yn Oftel:

Ein cyfeiriad

Oftel
50 Ludgate Hill
London EC4M 7JJ

Ein gwefan

www.oftel.gov.uk

Yr Uned Ymchwil a Gwybodaeth

ffôn: 020 7634 8761
ffacs: 020 7634 8946
e-bost: infocent@oftel.gov.uk

Os oes gennych gŵyn
- yng Nghymru, Lloegr
a'r Alban

Adran Cynrychioli Defnyddwyr

Rhif cyfradd leol:
0845 714 5000
ffôn: 020 7634 8888
ffacs: 020 7634 8845
ffôn testun: 020 7634 5370
e-bost: advice@oftel.gov.uk

- yng Ngogledd Iwerddon

NIACT Secretariat

22 Great Victoria Street
Belfast BT2 7QA
Rhif cyfradd leol:
0845 714 5000
ffacs: 028 9024 7024
e-bost: niact@acts.org.uk



Sefydliadau defnyddiol eraill:

Fax Preference Service

DMA House
70 Margaret Street
London W1W 8SS

ffôn: 0845 070 0702
ffacs: 0845 070 0705
e-bost: fps@dma.org.uk
www.fpsonline.org.uk

Independent Committee for the Supervision of Standards of Telephone Information Services (ICSTIS)

Cwynion am wasanaethau cyfraddau premiwm
ffôn: 0800 500212
www.icstis.org.uk

Independent Television Commission

Cynnwys rhaglenni teledu a thrwyddedu cwmnïau teledu
ffôn: 020 7255 3000
www.itc.org.uk

Information Commissioner

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
ffôn: 01625 545745
e-bost:
data@data.protection.gov.uk
www.dataprotection.gov.uk

National Radiological Protection Board

Materion iechyd ynghylch ffonau symudol

ffôn: 01235 831600
www.nrpb.org.uk

Ricability

30 Angel Gate
City Road
London EC1V 2PT

ffôn: 020 7427 2460
ffôn testun: 020 7427 2469
e-bost: mail@ricability.org.uk
www.ricability.org.uk

Telephone Preference Service

DMA House
70 Margaret Street
London W1W 8SS

ffôn: 0845 070 0707
ffacs: 0845 070 0706
e-bost: tps@dma.org.uk
www.tpsonline.org.uk

Ymwadiad: Dim ond ar gyfer arweiniad cyffredinol y rhoddir y wybodaeth yn y llyfryn hwn. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i wirio bod y wybodaeth yn gywir ac wedi'i diweddarau ar adeg y'i cyhoeddir. Fodd bynnag, ni allwn roi sicrwydd ynghylch unrhyw wybodaeth a roddir. Nid yw OfTEL yn gyfrifol am y cynnwys a gynhyrchwyd gan unrhyw sefydliad arall a grybwyllwyd yn y daflen hon. Efallai yr hoffech gymryd cyngor annibynnol ar faterion cyfreithiol. At ddbenion hyfforddiant, gallwn fonitro'r galwadau a wnewch i ni.

Mae'r daflen hon ar gael hefyd mewn print bras ac mewn Braille.

(h) Hawlfraint y Goron 2002